| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mehefin 2017** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Graham Boase Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**<br>**Emlyn Jones Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Partneriaeth Teledu Cylch Caeëdig Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Phartneriaeth Teledu Cylch Caeëdig Sir Ddinbych a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2016.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn i ddarparu diweddariad i Aelodau ar y Bartneriaeth Teledu Cylch Caeëdig, y trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer y Bartneriaeth, ei heffeithiolrwydd o ran darparu gwasanaeth a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Bartneriaeth i ddatblygu dyfodol mwy cynaliadwy.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n trafod cynnwys yr adroddiad, cefnogi rôl y Cyngor o fewn y Bartneriaeth a pharhau i gefnogi i gadw'r Bartneriaeth.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Dechreuodd Partneriaeth Teledu Cylch Caeëdig Sir Ddinbych ar 1 Ebrill 2016 am gyfnod prawf o 12 mis. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys Cyngor Tref y Rhyl, Cyngor Tref Rhuddlan, Cyngor Tref Prestatyn, Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych yn bartner arweiniol. Mae'r bartneriaeth bellach wedi cwblhau ei 12 mis cyntaf ac mae pob partner wedi ymrwymo i gwblhau isafswm pellach o 12 mis.

4.2 Ffurfiwyd y Bartneriaeth yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddileu cyllid y Gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig fel rhan o broses y gyllideb Ryddid a Hyblygrwydd. Gweithiodd Swyddogion gyda'r Cynghorau Tref perthnasol a Heddlu Gogledd Cymru i archwilio'r opsiynau er mwyn cadw'r gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig yn y dair tref serch bod cyllid craidd y Cyngor Sir wedi'i dynnu'n ôl. Ariennir y Bartneriaeth Teledu Cylch Caeëdig newydd gan gyfraniadau ariannol gan y tri Chyngor Tref, Heddlu Gogledd Cymru ac incwm gan rai gwasanaethau CSDd sydd eisoes â chamerâu Teledu Cylch Caeëdig ar waith oherwydd rhesymau diogelwch a hefyd gan drydydd parti allanol.

4.3 Mae cytundeb cyfreithiol ar waith ar gyfer y Bartneriaeth, wedi'i lofnodi gan yr holl bartneriaid.

4.4 Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Teledu Cylch Caeëdig a chadeiriwyd y Bwrdd gan Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus y Cyngor. Mae’r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter.

4.5 Penodwyd Cydlynydd Teledu Cylch Caeëdig. Mae’r swydd hon yn llawn amser, fe’i hariennir gan y Bartneriaeth, ond cyflogir deiliad y swydd gan GSDd, fel “Partner Arweiniol”. Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am gydlynu’r gwasanaeth, ymdrin â cheisiadau dyddiol gan bartneriaid / asiantaethau, cynnal a chadw’r systemau a gweithio gyda chontractwyr i atgyweirio a chynnal offer ac ati, felly'n gweithio’n agos gyda’r holl Bartneriaid.

4.6 Cadwyd yr holl gamerâu Teledu Cylch Caeëdig yn y dair tref ac maent yn parhau i recordio 24 awr o’r dydd, 7 niwrnod yr wythnos, hynny yw nid yw’r camerâu’n cael eu monitro 24/7.

4.7 Mae’r Bartneriaeth newydd yn darparu gwasanaeth gwerthfawr a phwysig yn y trefi. Mae’r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn gan yr holl Bartneriaid. Nodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru nad oedd cynnydd gweladwy wedi bod o ran troseddu ac anhrefn yn y dair tref ers dechrau’r bartneriaeth a’r dull newydd o ddarparu gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig. Mae troseddau’n ymwneud â thai trwyddedig a chyfraddau lladrata o siopau wedi aros yn debyg i gyfraddau’r blynyddoedd blaenorol. Credir Heddlu Gogledd Cymru bod Teledu Cylch Caeëdig yn bwysig er mwyn atal a chanfod troseddau yn yr ardal.

4.8 Er bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol hyd yma, gwerthfawroga’r Bwrdd nad yw’r trefniadau cyfredol yn gynaliadwy. Cyfnod prawf o 12 mis yn unig oedd hwn a derbyniwyd a deallwyd gan y partneriaid y byddai gwaith pellach yn angenrheidiol er mwyn datblygu opsiwn darpariaeth gwasanaeth mwy cynaliadwy dros dymor canolig. Fe ddaeth hefyd yn amlwg bod yr orddibyniaeth ar y Partner Arweiniol yn parhau (CSDd).

4.9 Ystyriwyd dwy agwedd gan y Bwrdd mewn perthynas â dyfodol Teledu Cylch Caeëdig yn Sir Ddinbych. Ystyriwyd gweithrediad y gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig o ddydd i ddydd a hefyd TGCh y System Teledu Cylch Caeëdig.

<u>Gweithrediad y gwasanaeth o ddydd i ddydd</u>

4.10 Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy a chryf i Deledu Cylch Caeëdig. Ar ôl ystyried sawl opsiwn gwahanol, cytunwyd dechrau gweithio gyda Chyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer er mwyn ymgymryd â gwaith rheoli’r gwasanaeth o ddydd i ddydd ar gyfer y Bartneriaeth. Golyga hyn bod lluniau o’r holl gamerâu Teledu Cylch Caeëdig yn Rhuddlan, y Rhyl a Phrestatyn yn cael eu darlledu yng Nghaer. Mae gan Gyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer wasanaeth Teledu Cylch Caeëdig 24/7 a bydd yn darparu gwasanaeth monitro adweithiol ar ran y Bartneriaeth, bydd yn ymateb i unrhyw sefyllfa 24/7, fe fydd a llwybrau cyfathrebu uniongyrchol â Heddlu Gogledd Cymru ac fe fydd hefyd yn darparu monitro cyfyngedig. Mae hyn yn welliant o gymharu â’r gwasanaeth presennol a ddarperir.

4.11 Ar hyn o bryd mae’r Bwrdd yn gweithio’n agos â Chyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer i gynllunio’r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol gan gynnwys datblygu cytundeb lefel gwasanaeth a gweithdrefnau gwaith. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad llawn â Heddlu Gogledd Cymru sydd yn aelod o’r Bwrdd Partneriaeth.

4.12 Unwaith y bydd y gwasanaeth wedi’i sefydlu gyda Gorllewin Sir Gaer a Chaer, byddwn yn cysylltu â Chynghorau Tref a Dinas i weld os ydynt yn dymuno ymuno â’r Bartneriaeth. Golyga hyn y byddai'n rhaid i'r Cynghorau Tref a Dinas dalu unrhyw gostau cychwynnol a chyfraniad blynyddol i’r Bartneriaeth.

<u>TGCh / Gweinydd</u>

4.13 Mae’r gweinydd presennol, sydd wedi’i leoli yn yr ystafell reoli yng Ngorsaf yr Heddlu y Rhyl, yn hen ac nid yw’n gweithio fel ag yr oedd yn y gorffennol. Fe ddaeth yn amlwg i'r Bwrdd y byddai gosod gweinydd newydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau system Teledu Cylch Caeëdig a oedd yn fwy cynaliadwy a chryf. Byddai hyn yn lleihau’r risg o’r gweinydd yn methu a fyddai’n atal unrhyw wasanaeth Teledu Cylch Caeëdig pellach. Bydd gweinydd newydd yn costio oddeutu £80,000. Mae’r Bwrdd wedi ymchwilio i sawl opsiwn cyllido gan gynnwys ceisiadau grant, rydym yn parhau i aros am benderfyniad ar un cais.

4.14 Cytunwyd gan y Bwrdd yn ddiweddar ar raglen rhesymoli/ blaenoriaethu camerâu. Cyflwynwyd adroddiad yn ddiweddar i'r Bwrdd (gweler Atodiad 1) yn ceisio cytundeb ar gyfer rhaglen atgyweirio camerâu yn y dyfodol. Y rheswm dros yr adroddiad hwn oedd i geisio sicrhau cytundeb y Bwrdd i weithredu rhaglen flaenoriaeth a chynnal a chadw camerâu newydd sy’n adlewyrchu’r cyfraniadau ariannol gan y tri Chyngor Tref a blaenoriaethu pwysigrwydd y camerâu hynny o ran atal a lleihau troseddu ac anhrefn.

4.15 Bu’r adroddiad o gymorth i flaenoriaethu 32 o gamerâu yn y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan yn seiliedig ar eu blaenoriaeth troseddu ac anhrefn a phwysigrwydd cymunedol. Bydd y 48 camera sy’n weddill yn cael eu categoreiddio fel blaenoriaeth is ac os ydynt yn torri ni fyddant yn cael eu hatgyweirio neu newid. Bydd hyn o gymorth i flaenoriaethu adnoddau ariannol cyfyngedig y Bwrdd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae gweithredu gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol o amddiffyn pobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau, cadw ein strydoedd yn lân a thaclus a datblygiad economaidd.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Telir yr holl gostau sydd ynghlwm â’r Bartneriaeth Teledu Cylch Caeëdig gan y Partneriaid. Nid oes unrhyw oblygiad sylweddol ar gyfer gwasanaethau eraill CSDd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1 Nid yw asesiad o effaith yn angenrheidiol oherwydd nid oes angen gwneud penderfyniad neu newid.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Nid oes ymgynghoriadau penodol y tu hwnt i'r Partneriaid. Cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn y gorffennol. Ceisiwyd yr adroddiad diweddaru hwn gan Aelodau Archwilio.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Yn 2014, cytunodd y Cyngor i dynnu cyllideb sylfaenol y Gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig yn ôl ar gyfer 2016/17. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddatrysiad partneriaeth creadigol, mae'r gwasanaeth wedi parhau mewn ffurf wahanol. Dylid adolygu'r risgiau a amlygwyd mewn perthynas â'r offer TGCh.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risgiau'n ymwneud â'r Bartneriaeth Teledu Cylch Caeëdig, yn bennaf y gweinydd a'r offer TG. Fel y manylwyd yn yr adroddiad, mae'r Bwrdd Teledu Cylch Caeëdig yn gweithio er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 7.4.2 (b) yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag adolygu perfformiad o ran amcanion polisi a meysydd gwasanaeth penodol.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd
Rhif ffôn: 01824 706350